Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Rheolwr Gwylfa

## Proses Bwrdd Dyrchafu

**Pecyn Gwybodaeth Recriwtio**

# Cynnwys

Croeso . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 3

Pwy ydym ni. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef 7

Y Rôl . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8

Beth allwn gynnig i chi. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 10

Canllawiau Recriwtio Rheolwr Gwylfa. . . . . . . . . . . . . . . . . . 12

Manyldeb Person. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12

Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14

Llinell Recriwtio. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15

How to Apply . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15



# Croeso

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym wedi ymrwymo i feithrin gweithle amrywiol, cynhwysol a theg lle mae pob gweithiwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Credwn fod amrywiaeth mewn cefndiroedd, profiadau a syniadau yn ysgogi arloesedd ac yn cryfhau ein gallu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Rydym yn chwilio am arweinwyr eithriadol i ymuno â'n cronfa dalent ar gyfer penodiadau parhaol yn y dyfodol. Mae rôl y Rheolwr Gwylfa yn heriol ac yn gallu bod yn llawn boddhad ac mae angen unigolyn sy'n ymgorffori'r safonau uchaf o ran uniondeb personol a phroffesiynol, ac sy'n gallu ennyn hyder, ymddiriedaeth a pharch ar draws pob lefel o'r sefydliad a'r gymuned ehangach.

Mae ymuno â ni yn golygu dod yn rhan o sefydliad blaengar lle gallwch gael effaith barhaol, datblygu eich potensial arwain, a chyfrannu at lunio dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

Os yw hyn yn swnio fel chi, a'ch bod yn barod i gynnig eich sgiliau arwain a'ch angerdd dros wneud gwahaniaeth, hoffem glywed gennych.

## Ein Taith Ddiwylliannol

Yn ddiweddar, mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ein hadroddiad terfynol o Adolygiad Diwylliannol Annibynnol a gomisiynwyd, a hwyluswyd gan Crest Advisory. Mae hyn yn garreg filltir arwyddocaol yn ein



hymrwymiad parhaus i feithrin diwylliant gweithle cefnogol, cynhwysol a blaengar.

Roedd yr adolygiad, a gychwynnwyd mewn ymateb i gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o gynigion gwella diwylliant y gwasanaethau tân ac achub, yn asesu'r cynnydd a wnaed wrth greu amgylcheddau gweithle cadarnhaol a nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu pellach.

Mae'n cynrychioli dechrau pennod newydd yn esblygiad diwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Drwy weithredu'r argymhellion hyn, mae'r Gwasanaeth yn ailddatgan eu hymroddiad i greu gweithle lle mae pob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei glywed a'i rymuso, ac i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'w cymunedau.

Rydym yn chwilio am arweinwyr ysbrydoledig a brwdfrydig i ymuno â ni ar y daith hon a helpu i ysgogi newid ystyrlon. Os ydych yn angerddol am feithrin diwylliant cadarnhaol yn y gweithle a chael effaith wirioneddol, rydym yn eich annog i fod yn rhan o'r trawsnewidiad hwn.

Yn dilyn yr argymhellion o'r Adroddiad Crest, mae arbenigwyr allanol wedi cael eu comisiynu i adolygu'r broses dyrchafu lawn o'r rhestr fer i'r broses Ansawdd a Sicrwydd.

Bydd yr arbenigwyr yn arsylwi ar yr holl gyfweliadau dyrchafu ar gyfer Rheolwyr Criw a Rholwyr Gwylfa er mwyn rhoi sicrwydd bod y broses yn deg i bob ymgeisydd a byddant yn nodi unrhyw argymhellion pellach ar gyfer gwelliannau y gall y Gwasanaeth eu gwneud er mwyn parhau i wella ein prosesau ar gyfer yr holl randdeiliaid.

Mae rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol ar gael yma.



# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.



# Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymru'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.

# Y Rôl

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio nodi unigolion addas ar gyfer rolau Rheolwr Gwylfa. Mae'r broses bwrdd dyrchafiad yn galluogi ymgeiswyr llwyddiannus i fod yn gymwys i gael penodiad parhaol neu dros dro os bydd swydd wag yn codi o fewn cyfnod o 12 mis neu hyd nes y bydd proses newydd yn dechrau.

Yn unol â thelerau ac amodau Llyfr Llwyd, mae'r penodiadau yn gyfnewidiol ag unrhyw swydd arall o'r un rôl o fewn y Gwasanaeth.

Gwahoddir ceisiadau Reolwyr Gwylfa amser cyflawn barhaol a Rheolwyr Criw amser cyflawn cymwys a barhaol. (Dylai Rheolwyr Gwylfa mewnol presennol sy'n dymuno newid eu rôl bresennol gyflwyno ffurflen gais trosglwyddo mewnol, a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses hon).

Mae swyddi ar gael ar draws y Gwasanaeth a dylai ymgeiswyr nodi'r swyddi hynny y byddent yn fodlon eu derbyn ar y ffurflen dewis lleoliad cysylltiedig.

Dylai ymgeiswyr ddarllen y nodiadau canllawiau cais yn ofalus mewn perthynas â darparu tystiolaeth yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol yn eu Ffurflen Gais. Dim ond y rhai sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol a nodir yn y Fanyleb Person fydd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Bydd raid i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad yn para 15 munud i'r panel (bydd pwnc y cyflwyniad yn cael ei hysbysu o fewn cadarnhad o'r rhestr fer) ac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r cyflwyniad a gyflwynwyd a gofynion y rôl.



Bydd asesiad Rheoli Digwyddiadau efelychiadol (Incident Command assessment) yn cael ei gynnal ar gyfer ymgeiswyr sy’n methu dangos tystiolaeth foddhaol o sicrwydd gweithredol neu asesiad ffurfiol yn y 12 mis diwethaf.


Mae sgiliau Cymraeg ar lefel 2 yn ofyniad i’r swydd hon; Bydd angen i weithwyr presennol ddangos cyflawniad blaenorol o’r lefel hon ar gais, ar gyfer ymgeiswyr allanol nad ydynt yn gallu dangos hyn wrth wneud cais, rhaid cyflawni hyn o fewn y cyfnod prawf, gyda chymorth yn cael ei ddarparu fel y bo’n briodol.

Bydd cyfweliadau’n cael eu cynnal dros bythefnos gan ddechrau o 6 Hydref 2025. Os nad yw ymgeiswyr yn gallu mynychu ar y dyddiad cyfweliad a drefnwyd, efallai y bydd y Gwasanaeth yn gallu gwneud trefniadau amgen o fewn yr amserlen bythefnos hon yn unig.

Sylwch fod y swydd hon yn destun gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys Gwiriad DBS, Cliriad Meddygol Boddhaol, prawf Cyffuriau ac Alcohol a geirdaon boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi’i wario neu heb ei wario) ar y DBS, bydd dull seiliedig ar risg ar reoli’r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar weithiwr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.



# Beth allwn gynnig i chi



Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn fod buddsoddi yn ein pobl yn allweddol i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Fel rhan o'n tîm, byddwch yn elwa yn sgil:

## Pecyn cyflog a budd-daliadau cystadleuol:

Rheolwr Gwylio: £44,038 (datblygiad) y flwyddyn
Rheolwr Gwylio: £45,260 (cymwys) y flwyddyn
Rheolwr Gwylio: B £48,202 (cymwys) y flwyddyn
(ac eithrio lwfansau a allai fod yn gymwys yn dibynnu ar y rôl)

- Mynediad i Gynllun Pensiwn cyfrannol cyflogwr.
- Hawl gwyliau blynyddol hael, gan ddechrau ar 30 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus

## Datblygiad Proffesiynol:

Cyfleoedd parhaus i wella eich sgiliau arweinyddiaeth a thechnegol trwy raglenni hyfforddi a datblygu wedi'u teilwra.

Cymorth i gyflawni cymwysterau proffesiynol pellach, wedi'u halinio â'ch dyheadau gyrfa ac anghenion sefydliadol.

## Ymrwymiad i'ch lles:

- Cymorth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cymorth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd gwasanaeth

- Ystod o fuddion ychwanegol fel cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr, darparwyr hamdden a gwasanaethau.

## Gweithle Cynhwysol a Chefnogol:

- Diwylliant sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol.

- Cefnogi rhwydweithiau a mentrau i sicrhau eich bod yn teimlo'n cael eich gwerthfawrogi a'ch grymuso i lwyddo.

## Cyfleoedd i wneud gwahaniaeth:

- Y cyfle i gyfrannu at wasanaeth sy'n chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu a gwella bywydau pobl yng Ngogledd Cymru.
- Rôl lle bydd eich arweinyddiaeth yn siapio dyfodol gwasanaethau tân ac achub yn uniongyrchol, gan yrru arloesedd a gwelliant ar gyfer cenedlaethau i ddod.

## Byw a Gweithio yng Ngogledd Cymru:

- Y cyfle i weithio yn un o'r rhanbarthau harddaf yn y DU, gydag arfordiroedd trawiadol, mynyddoedd, a threftadaeth ddiwylliannol fywiog.
- Cyfle i gofleidio a chyfrannu at ddiwylliant Cymru, gan gynnwys cefnogaeth i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Trwy ymuno â ni, byddwch nid yn unig yn datblygu'n broffesiynol ond hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth greu Gogledd Cymru fwy diogel, cryfach a gwydn.

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 42 awr yr wythnos ar draws systemau dyletswydd amrywiol.



# Canllawiau Recriwtio Rheolwr Gwylfa

Mae y canllawiau isod ar gael i helpu ymgeiswyr lenwi y ffurflen gais.

# Manyldeb Person

## Meini Prawf Hanfodol a Dymunol Rheolwr Gwylfa.

| **Essential Criteria** | |
|---|---|
| E1 | Rheolwyr Criw cymwys a parhaol |
| E2 | Rhaid meddu ar gymhwyster ICL1 (Dyfarniad SFJ Lefel 3 mewn Gorchymyn Digwyddiad Cychwynnol mewn Gwasanaethau Tân ac Achub neu gyfwerth) |
| E3 | Asesiad boddhaol o orchymyn digwyddiadau ar lefel 1 o fewn y 12 mis diwethaf. Bydd cyfle i gynnal asesiad gorchymyn digwyddiad fel rhan o'r broses ddethol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt asesiad cyfredol. |
| E4 | Gwerthfawrogi a chymryd cyfrifoldeb am cydraddoldeb a chynhwysiant |
| E5 | Yn gallu datblygu a gweithredu prosesau cyfathrebu I sicrhau bod gan y tîm fynediad at wybodaeth gywir |
| E6 | Dangos cymwyseddau gweithredol ar eu lefel bresennol |
| E7 | Yn cymryd cyfrifoldeb am effeithiolrwydd tîm sy'n canolbwyntio ar wella |
| E8 | Yn ceisio deall a mynd i'r afael a risgiau penodol ac anghenion amrywiol ein cymunedau |
| E9 | Yn cefnogi datblygiad timau ac unigolion |
| E10 | Yn ymchwilio ac yn adrodd ar ddigwyddiadau i lywio arferion yn y dyfodol |
| E11 | Arwain a chefnogi pobl i ddatrys digwyddiadau gweithredol |
| E12 | Goruchwyliaeth foddhaol o ymarferion cyfun yn yr orsaf (cadarnhawyd gan y rheolwr llinell) Bydd cyfle i gynnal asesiad drilio cyfunol fel rhan o'r broses ddethol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt asesiad cyfredol. |
| E13 | Mae'n rheoli ansawdd yn y tîm |

| | |
|---|---|
| E14 | Cymraeg ar lefel 2<br>*ar gyfer ymgeiswyr allanol: os nad yw hyn eisoes wedi dangos wrth benodi, mae hyn i'w gyflawni o fewn gyfnod prawf o 12 mis, gyda chefnogaeth yn cael ei darparu fel sy'n briodol |
| E15 | Nid oes ganddo unrhyw faterion rheoli perfformiad, gallu, disgyblaeth na phresenoldeb cyfredol |
| E16 | Trwydded yrru Brydeinig lawn |
| E17 | Bydd yn llwyddo I gwblhau gwiriad DBS safonnol (efallai y bydd angen cael un manylach ar gyfer rhai swyddi) |
| E18 | Yn medru ar asesiad ffitrwydd boddhaol a chyfoes |
| **Meini Prawf Dymunol** | |
| D1 | Cymhwyster asesydd ffurfiol |
| D2 | Wedi ymgymryd a datblygiad rheoli ffurfiol yn llwyddiannus |
| D3 | Cymraeg ar lefel 3 |

Nodyn: Yn unol â pholisi Recriwtio a Dethol GTAGC, ni fydd ymgeiswyr sydd wedi derbyn unrhyw rybuddion o dan ddisgyblaeth neu allu yn gymwys i wneud cais am swydd wag os yw dyddiad cau'r broses briodol yn dod o fewn cyfnod eu dyfarniad. Nid yw hyn yn cynnwys rhybuddion anffurfiol na Nodiadau ar gyfer Ffeil (sgyrsiau wedi'u dogfennu mewn perthynas â mân faterion).

Gellir dangos tystiolaeth o'r Meini Prawf Hanfodol a Dymunol trwy gyfeirio at eich profiadau diweddaraf a ddylai ddangos eich gallu proffesiynol o fewn eich rôl bresennol, neu o unrhyw brofiadau perthnasol cyfredol eraill y tu allan i'ch rôl bresennol a thu allan i'ch cyflogaeth o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub.

Nodwch mai'r uchafswm cyfrif geiriau fesul meini prawf yw 150 gair.

## Gwybodaeth Cyflwyniad

Cyflwyniad Bydd gofyn i chi gyflwyno cyflwyniad 15 munud i'r panel cyfweld. Rhoddir rhagor o fanylion, gan gynnwys testun y cyflwyniad, i ymgeiswyr ar ôl cwblhau'r broses rhestr fer.

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

## Lefel 2

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a’r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau’r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i’r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i’w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae’r sgiliau gofynnol wedi’u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonnau’r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â’r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>• Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | • Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â’ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | • Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â’ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |

# Llinell Recriwtio

| Gweithgaredd Recriwtio | Dyddiad |
|---|---|
| Dyddiad Cau | Hanner dydd ar 22 Medi 2025 |
| Cyfweliadau | Yn dechrau 6 Hydref, 2025 dros bythefnos |

# How to Apply

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich Ffurflen Cymeradwyaeth Rheolwr ar gyfer Dyrchafiad (Mewnol yn Unig), Ffurflen Dewis Lleoliad a ffurflen gais lawn gyda'i gilydd. Mae'r ffurflenni i'w gael ar dudalen Swyddi Gwag presennol ein gwefan. Dylid cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r  Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch yn ystod y broses recriwtio, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech rannu adroddiad meddygol neu ddogfennaeth berthnasol sy'n amlinellu'r addasiadau a allai eich cefnogi orau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'ch cais a'r HOLL ffurflenni cysylltiedig cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn. Dim ond y cais cyntaf a gyflwynir gan bob ymgeisydd fydd yn cael ei dderbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Rydym yn cydnabod y gall ymgeiswyr ddefnyddio offer AI neu adnoddau eraill yn ystod y broses ymgeisio. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth rydych chi'n ei gyflwyno yn ffeithiol gywir, yn wir, ac yn gyfan gwbl eich gwaith eich hun. Dylai eich cais adlewyrchu eich profiadau, eich syniadau a'ch llais eich hun i sicrhau ei fod yn ddilys ac yn gredadwy.

Sylwch y gellir gwrthod ceisiadau os oes tystiolaeth o lên-ladrad (plagiarism) neu or-ddibyniaeth ar gynnwys a gynhyrchir gan AI. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno syniadau, profiadau, neu ddeunydd a grëwyd gan eraill, neu gan ddeallusrwydd artiffisial, fel eich un chi.

Os cewch eich gwahodd i gyfweld, byddwch yn ymwybodol bod defnyddio offer AI wedi'i wahardd yn llwyr, gan gynnwys at ddibenion fel trawsgrifio, recordio, neu gymryd nodiadau. Gall unrhyw ddefnydd amheuol o offer o'r fath arwain at derfynu eich cyfweliad a'ch tynnu'n ôl o'r broses recriwtio.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Rheolwr Grŵp Steve Houghton, Rheolwr Ymateb Gweithredol drwy ebostio steve.houghton@tangogleddcymru.llyw.cymru neu

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.